Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

POLICE AND CRIME PANEL

PANEL HEDDLU A THROSEDD

Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Dydd Llun, 18 Medi 2017 at 2.00 pm
Siambr y Cyngor, Bodlondeb, Conwy

a) **Diweddariad Cyfnodol gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru** (Tudalennau 1 - 15)

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Diweddariad ar gyfer y Panel Heddlu a Throsedd
18 Medi 2017
Arfon Jones, Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Gogledd Cymru

Cyflwyniad

Dyma fy adroddiad i'r Panel am y cyfnod 1 Gorffennaf hyd at ganol Awst 2017.

Fel yr addewais yng nghyfarfod diwethaf y Panel ar 10 Awst, mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â pherfformiad yn erbyn chwarter cyntaf Cynllun Heddlu a Throsedd 2017-2021.

Nid yw'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r gofynion adrodd statudol penodol. Mae'n ymwneud yn bennaf â swyddogaeth ehangach y panel o dan adran 28 (6) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf) i adolygu neu graffu ar benderfyniadau a wnaed neu gamau eraill a gymerwyd gennyf fel Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (y Comisiynydd) ar gyfer gogledd Cymru, ac i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion i mi fel Comisiynydd yn hynny o beth. Hefyd, yn unol ag adran 13 (1) o'r Ddeddf, mae'n darparu'r panel â'r wybodaeth y disgwylir i'r Comisiynydd o fewn rheswm ei chyfrannu i'r Panel i gyflawni ei swyddogaethau (y ceisiadau penodol).

Adran Un: Fy ngwaith craffu ar Heddlu Gogledd Cymru

Bydd aelodau'r panel yn ymwybodol, yn 2017-2021, rwy'n bwriadu blaenoriaethu'r meysydd hynny a nodwyd fel prif feysydd bygythiad, risg a niwed. Sef:

- **Cam-drin domestig**
- **Caethwasiaeth Modern a Masnachu mewn Pobl**
- **Cam-drin Rhywiol gan gynnwys Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant**
- **Grwpiau Troseddau wedi'u Trefnu**

Yn ychwanegol at y blaenoriaethau hyn, mae gwasanaeth heddlu gweladwy a hygyrch yn parhau i fod yn bwysig i'r cyhoedd. Mae'r Cynllun yn adlewyrchu'r hyn mae'r cyhoedd a'r Panel Heddlu a Throsedd wedi dweud wrthyf ac mae **Darparu Cymdogaethau Diogel** yn parhau i fod yn flaenoriaeth i mi.

Yn unol â hynny, rwyf nawr yn craffu ar Heddlu Gogledd Cymru trwy fesur ei berfformiad yn erbyn y pum blaenoriaeth hyn. Mae'r prif gyfrwng yr wyf yn cyflawni'r swyddogaeth graffu honno yn parhau i fod y Bwrdd Gweithredol Strategol yr wyf yn ei gadeirio, ac y mae'r Prif Gwnstabl a'i uwch swyddogion yn eistedd arno. Cyflwynir adroddiad perfformiad gan yr Heddlu ym mhob cyfarfod SEB sy'n nodi'r sefyllfa a'r heriau presennol mewn perthynas â phob blaenoriaeth. Cefnogir yr adroddiad hwn gan gyfarfodydd perfformiad misol newydd sy'n canolbwyntio ar eithriadau i sicrhau bod ymdrechion yr Heddlu yn cael eu rhoi yn y meysydd cywir.

Cyflwynwyd adroddiad perfformiad ar fformat newydd gan Heddlu Gogledd Cymru i'r cyfarfod SEB diwethaf ar yr 17 Awst 2017. Roeddwn i'n teimlo bod yr adroddiad perfformiad newydd ychydig yn brin o ddata ac nid oeddwn yn gallu llwyr asesu'r 'cyfeiriad teithio' mewn perthynas â fy mlaenoriaethau plismona newydd. Felly rwyf wedi gofyn i'r Heddlu adolygu'r adroddiad cyn y cyfarfod SEB nesaf. Mae uwch swyddogion yn ymwybodol mai hwn oedd eu hymgais gyntaf wrth

gynhyrchu'r ddogfen berfformiad 'newydd' a bydd yn un o 16 a fydd yn cael ei gynhyrchu dros gyfnod Cynllun Heddlu a Throsedd 2017-2021, felly bydd yn esblygu rwy'n siŵr.

Mae'r fformat cyfredol yn seiliedig ar naratif sy'n cynnwys 'golwg o'r brig' ar gynnydd yn erbyn fy mlaenoriaethau. Bydd hyn yn parhau ond yn y dyfodol bydd yn cynnwys elfen 'Sut y byddwn yn gwneud gwahaniaeth', gan edrych ymlaen at yr hyn a gynllunnir.

Mae Cynllun Cyflawni'r Prif Gwnstabl yn nodi'r camau penodol y bydd Heddlu Gogledd Cymru yn eu cymryd i gyflawni'r blaenoriaethau hyn. Yn hollbwysig mae pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth wrth fynd i'r afael â nhw. Mae gan Gynllun Cyflawni'r Heddlu rai newidiadau yn y modd y mae Heddlu Gogledd Cymru yn asesu perfformiad, gan symud yn fawr tuag at asesiad mwy ansoddol. Mae proses newydd ar y gweill o adolygu mathau o droseddau â blaenoriaeth yn rheolaidd i edrych am dystiolaeth o ymchwilio, goruchwylio a gofal dioddefwyr effeithiol. Y gobaith yw y bydd craffu rheolaidd a gweladwy o'r meysydd hyn yn dangos i swyddogion a staff yr hyn y mae'r Heddlu'n ei ddal yn bwysig wrth ddarparu gwasanaeth effeithiol.

Er y byddaf yn monitro perfformiad yr Heddlu yn erbyn y pum blaenoriaeth hyn, mae'n ofynnol wrth gwrs bod agweddau eraill ar blismona yn parhau i gael eu cyflwyno'n effeithiol ac yn effeithlon.

Blaenoriaeth 1: Cam-drin Domestig

Fel y nodwyd yn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd, mae Cam-drin Domestig yn digwydd bob dydd, ym mhob rhan o'r DU, gan gynnwys Gogledd Cymru. Bob dydd mae Heddlu Gogledd Cymru yn cofnodi 26 o ddigwyddiadau domestig ar gyfartaledd. Dros y saith mlynedd diwethaf, cafodd 936 o ferched eu lladd gan ddynion yng Nghymru a Lloegr. Yn wir, bu nifer o laddiadau domestig proffil uchel yng Ngogledd Cymru dros y misoedd diwethaf.

Cam-drin Domestig yw'r risg uchaf sy'n wynebu Heddlu Gogledd Cymru oherwydd yr effaith gyffredinol ar y dioddefwr (corfforol, seicolegol ac ariannol), nifer y troseddau a gofnodir a thuedd gynyddol.

Y gobaith yw trwy flaenoriaethu Cam-drin Domestig y gallwn gyflawni'r canlynol:

- Hyder dioddefwyr wrth riportio Cam-drin Domestig i Heddlu Gogledd Cymru;
- Nifer briodol o swyddogion arbenigol gyda'r hyfforddiant priodol er mwyn bodloni'r galw;
- Gwell profiad o safbwynt y dioddefwyr drwy'r broses cyfiawnder troseddol.

Mae Cam-drin Domestig yn parhau i fod yn faes risg UCHEL i'r Heddlu. Mae trosedd domestig wedi cynyddu gan 663 y flwyddyn o 2008 i 2671, sef cynnydd o 33.0%.

Mae trais domestig heb anaf wedi cynyddu o 887 y llynedd hyd at 1,303 hyd yma eleni, sef cynnydd o 46.9%.

07/08/2017 01:16

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru diogelach
NORTH WALES POLICE
A safer North Wales

Week 18

Current Week	YTD	LYTD	% Change
60	1,303	887	**46.9%**

Current Signals

Ynys Mon	Gwynedd North	Gwynedd South	West Conwy	Denbigh Coastal	Conwy Rural	Flintshire North	Flintshire South	Wrexham Town	Wrexham Rural
						High (11)			



Mae cynnydd yn y lefelau riportio yn cael eu hymchwilio gan Heddlu Gogledd Cymru a chaiff y canfyddiadau eu rhannu gyda mi maes o law. Rydym angen deall yn well a yw'r cynnydd yn nifer yr achosion sy'n cael eu riportio oherwydd mwy o hyder mewn riportio, newidiadau yn y modd y cofnodir troseddau, neu ryw reswm arall.

Yn galonogol, mae dioddefwyr olynol a throseddwyr olynol cam-drin domestig yn sefydlog ac nid ydynt yn dangos unrhyw dueddiadau anffafriol. Mae'r rhaniad rhyw ac oed yn dangos bod merched yn fwy tebygol o ddioddef yn olynol yn unrhyw un o'r categorïau oedran. Fodd bynnag, bu cynnydd yn y nifer o ddioddefwyr gwrywaidd yn riportio cam-drin domestig i'r Heddlu dros y blynyddoedd diwethaf, ac er mai cyfran fechan o'r ffigwr cam-drin domestig cyffredinol yw hwn, gallai fod yn arwydd o fwy o hyder mewn riportio.

Mae Heddlu Gogledd Cymru ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar asesu ansawdd ymchwiliadau cam-drin domestig a'r gwasanaeth a dderbynnir gan ddioddefwyr cam-drin domestig. Dylai ffocws clir o'r fath roi digon o wybodaeth i'r Heddlu er mwyn gwella'r gwasanaeth a ddarperir i ddioddefwyr.

Mae sampl o ymchwiliadau Cam-drin Domestig yn cael eu hadolygu a'u harchwilio bob chwarter. Mae pob adolygiad yn ystyried a oes tystiolaeth o ddiogelu digonol, cyfarwyddyd goruchwyliol, p'un ai aeth yr ymchwiliad ymlaen yn gyflym ac a yw'r achos yn cydymffurfio'n gyson â'r Cod Ymarfer Dioddefwyr. Mae'r adolygiad hefyd yn galluogi uwch swyddogion i rannu enghreifftiau o arferion da gydag adrannau amrywiol.

Mae cynrychiolydd o'm swyddfa hefyd yn eistedd ar Banel Craffu Diogelu Pobl Ddiamddiffyn, sy'n rhoi samplau o ffeiliau Cam-drin Domestig bob chwarter, i ganfod a ellir dysgu unrhyw wersi o'r ymchwiliadau a ystyriwyd. Mae uwch swyddogion perthnasol yn rhoi adborth ar unrhyw bwyntiau datblygu perthnasol o'r cyfarfodydd hyn i'w staff / swyddogion lleol.

Ar hyn o bryd mae Heddlu Gogledd Cymru yn treialu arolwg boddhad a hyder ymysg dioddefwr Cam-drin Domestig. Bydd canlyniadau'r arolygon hynny yn cael eu bwydo i fy nghyfarfodydd Bwrdd Gweithredol Strategol maes o law.

Mae cam-drin domestig yn cynnwys stalcio ac aflonyddu, sy'n faes o droseddau sydd am gael mwy o ffocws dros y misoedd nesaf. Mae'r effaith gall ymddygiad o'r fath ei chael ar fywydau pobl yn sylweddol ac mae'n risg uchel; ceir enghreifftiau da o amgylch y wlad lle mae'r math hwn o droseddu wedi cynyddu i ganlyniad trasig. Mae'n amlwg y gall gweithredu cadarn a phenderfynol yr heddlu atal hyn ac yr wyf yn awyddus i weithio gyda'r Heddlu i sicrhau bod yr ystod o fesurau y gellir eu defnyddio mewn achosion stalcio ac aflonyddu yn cael eu defnyddio'n effeithiol, a bod y swyddogion yn deall ac yn asesu'n gywir y risg sy'n bresennol yn y sefyllfa hon, gan alluogi swyddogion i wneud penderfyniadau gwybodus, ac yn y pen draw yn cadw pobl yn ddiogel.

Mae polisi cam-drin domestig yn cael ei oruchwylio gan yr Uned Strategol Diogelu Pobl Ddiamddiffyn ac mae rhwydwaith o swyddogion cam-drin domestig arbenigol wedi'u lleoli ar draws yr heddlu. Mae'r swyddogion hyn yn gweithio gyda dioddefwyr i'w cefnogi ac i ennyn hyder.

Mae darn arall o waith yn parhau i ganolbwyntio ar drais yn seiliedig ar anrhydedd ac anffurfio organau cenhedlu merched. Yn ddiweddar, rydym wedi gweld cynnydd yn y nifer o achosion cam-drin yn seiliedig ar anrhydedd sy'n cael ei riportio ac mae hyn yn fy marn i mae hyn yn galonogol iawn. Mae strwythurau rhanbarthol yn cael eu datblygu, ac mae fy swyddfa yn cymryd rhan sylweddol yn y broses hon.

Er gwaethaf y ffaith bod nifer yr achosion o Gam-drin Domestig a riportiwyd yn cynyddu bob blwyddyn, mae nifer y bobl sy'n cael eu cyhuddo o droseddau domestig wedi gostwng yn flynyddol, ac mae'r nifer o achosion lle mae anawsterau tystiolaethol wedi bod yn codi fesul blwyddyn.

Holodd aelodau'r Panel Heddlu a Throsedd yn eu cyfarfod diwethaf ym mis Awst pam na fu cynnydd yn yr arestiadau Cam-drin Domestig, er gwaethaf y cynnydd amlwg hwn mewn digwyddiadau Cam-drin Domestig. Roeddwn eisoes wedi ceisio cael ateb i'r cwestiwn hwn yn SEB.

Mae cynrychiolwyr o'r Heddlu yn dweud wrthyf fod yna lawer o enghreifftiau o fwy nag un trosedd yn cael ei chreu o un digwyddiad Cam-drin Domestig. Byddai pob un o'r troseddau hyn yn cael eu categoreiddio fel Cam-drin Domestig wrth gael eu cau, a allai esbonio rhywfaint o'r cynnydd. Gallai cynnydd mewn trydydd partïon yn riportio hefyd fod yn gyfrifol am esbonio peth o'r cynnydd. Fodd bynnag, nid yw'r esboniadau hyn ynddynt eu hunain yn esbonio pam fod arestiadau yn sefydlog. Awgrymwyd bod mwy o ddefnydd wedi bod o Bresenoldeb Gwirfoddol, yn hytrach na arestio, mewn perthynas â chyflawnwyr a amheuir o Gam-drin Domestig yn ddiweddar a gallai hyn fynd rhywfaint i esbonio natur disymud y ffigurau arestio.

Gofynnwyd i'r Heddlu brofi'r ddamcaniaeth uchod gyda'r bwriad o gyflwyno eu canfyddiadau yn y cyfarfod SEB nesaf.

Rwyf wedi gofyn am fwy o fanylion yn adroddiad y SEB ynghylch cam-drin domestig – yn benodol, niferoedd o ddarganfyddiadau, mathau o droseddau, oedran plant, a gwaith Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru.

Blaenoriaeth 2: Caethwasiaeth Modern a Masnachu mewn Pobl

Rwyf ar ddeall fod y risg o'r ardal hon yn cynyddu, fel y mae ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r mater. Bu mwy o gyhoeddusrwydd hefyd gan asiantaethau diogelu ynghyd â rhai gweithrediadau amlwg iawn sydd wedi codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ledled y DU.

Mae'r darlun o gaethwasiaeth modern yng Ngogledd Cymru yn gwella, ynghyd â'r gweithgarwch sy'n cael ei roi ar waith i'w oresgyn.

Yn draddodiadol, ychydig o wybodaeth oedd yna am y mater, felly mae'n anodd asesu'r datblygiad, ond mae hyn yn anochel yn y math hyn o droseddau sy'n dod i'r amlwg.

Cafodd tair trosedd caethwasiaeth modern ei riportio ym mis Mai, y mis sydd newydd gael ei archwilio.

Unwaith y bydd yr arolwg Bodlonrwydd Dioddefwyr Cam-drin Domestig wedi'i sefydlu, bydd y broses yn cael ei ehangu i'r meysydd Blaenoriaeth eraill, fel caethwasiaeth fodern, er mwyn sicrhau bod mesurau diogelu yn eu lle.

Mae Heddlu Gogledd Cymru'n cael ei barchu mewn perthynas â chaethwasiaeth fodern yn genedlaethol ac yn gyson yn cyflwyno gwybodaeth am gaethwasiaeth fodern i'r Uned Troseddau Trefnedig Rhanbarthol. O ganlyniad i'r wybodaeth a gyflwynwyd, diogelwyd 35 o ddioddefwyr, yn amrywio rhwng 17-56 oed.

Mae HMIC wedi amlygu gwaith da'r heddlu yn yr ardal hon a chytunwyd bod angen datblygu gwaith aml-asiantaeth pellach.

Yn ddiweddar, cydnabuwyd bod gwendidau dioddefwyr yn cynnwys camddefnyddio sylweddau gan gynnwys alcohol, iechyd meddwl, dyled, statws mewnfudo ac iaith. Felly, mae'n hanfodol bod yr heddlu yn gweithio mewn partneriaeth â llu o asiantaethau eraill er mwyn diogelu'r dioddefwyr yn effeithiol.

Mae nifer o ymgyrchoedd caethwasiaeth fodern ar hyn o bryd yn y rhanbarth.

Wrth edrych ymlaen, bydd Heddlu Gogledd Cymru yn cyfarfod â chynrychiolwyr o'r Eglwys Gatholig i drafod Caethwasiaeth Fodern, a gwahoddwyd swyddogion i Rwmania er mwyn deall yn well y gwahaniaethau diwylliannol a gallu plismona yn y wlad.

Mynychodd cynrychiolydd o'm swyddfa gyfarfod o'r panel craffu Caethwasiaeth Fodern ym mis Awst a disgwylir cynnal cyfarfod pellach o Bartneriaeth Caethwasiaeth Fodern Gogledd Cymru ym mis Medi, ac mae gennyf gynrychiolaeth ar hwn hefyd. Y gobaith yw y bydd y cyfarfod hwn yn datblygu ymhellach y gwaith amlasiantaeth sydd ei angen yn rhanbarthol mewn perthynas â'r flaenoriaeth hon.

Yn ddiweddar, dywedodd Mr Kevin Hyland, y Comisiynydd Gwrth-Gaethwasiaeth Annibynnol, fod Gogledd Cymru yn amlwg yn cymryd rôl arweiniol mewn perthynas â Chaethwasiaeth Fodern ac fe ddangoswyd hyn yn ddiweddar pan ddarparwyd ein cefnogaeth i dîm Mr Hyland gan ein hyfforddwr, Mr James Coy, i ddarparu ymwybyddiaeth o grwpiau cyfoedion i swyddogion yr heddlu o bob cwr o'r DU.

Blaenoriaeth 3: Cam-drin Rhywiol gan gynnwys Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant

Mae'r risg ar gyfer CSE yn parhau i fod yn uchel ag y mae galw am yr unedau arbenigol sy'n delio â cham-drin plant yn rhywiol.

Mae nifer y sawl a ddrwgdybir fel bod yn gysylltiedig â CSE hefyd yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Mae mesur llwyddiant yn y maes hwn yn anodd o gofio natur troseddau nad ydynt yn aml yn cael eu datgelu. Mae ffocws ar adolygu achosion ar gyfer ansawdd a throsolwg proffesiynol yn parhau i fod yn ddull allweddol o ddeall effeithiolrwydd.

Mae'r ffaith fod Barnardo's wedi rhoi'r gorau i gynnal cyfweliadau dychwelyd adref ddiwedd mis Mawrth 2017 heb os, wedi gweld gostyngiad mewn cyfleoedd cudd-wybodaeth mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sydd mewn perygl o CSE. Mae goblygiadau partneriaeth hyn yn cael ei fonitro a'i asesu yn y Grŵp Gweithredol CSE Rhanbarthol sy'n bwydo i Fwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Mae lefelau cyfredol o droseddau Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant yn parhau'n isel heb fawr o erledigaeth neu droseddu ailadroddus. Mae gwaith pellach yn cael ei wneud i ddeall y gwaith ehangach a wneir i gefnogi CSE i hysbysu'r SEB o gynnydd yn y maes gwaith hwn.

Rydym eto i ganfod modd o gael adborth oddi wrth ddioddefwyr CSE, ond fe allai gynnwys asiantaethau partner. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn disgwyl gweithredu'r arolygon Cam-drin Domestig yn ddiogel a llwyddiannus cyn ehangu i'r maes hwn.

Wrth asesu llwyddiant yn ardal fusnes CSE, mae'n rhaid rhoi diwydrwydd i'r math o drosedd a'r dioddefwr. Mae natur CSE yn golygu nad yw ein dioddefwyr yn gweld eu hunain yn ddioddefwyr. Maent yn credu eu bod mewn perthnasau cyfartal a pharchus. Mae'n amlwg nad yw hyn yn wir. O gofio'r her hon, mae dioddefwyr yn aml yn cymryd cryn amser i ddeall eu bod wedi'u targedu a'u herlid. Gall y troseddwr waethygu'r camddealltwriaeth hwn ymhellach gan barhau i feithrin y dioddefwyr trwy ddweud bod gweithredoedd yr heddlu a gofal cymdeithasol yno i niweidio'r dioddefwr a'u perthynas â'r troseddwr, nid i helpu'r dioddefwr. Felly, mae hyn yn gwneud datgeliadau o ddigwyddiadau ac yna cofnodi'r drosedd yn arbennig o heriol.

Nid wyf yn credu bod troseddau a gofnodwyd yn ddangosydd llwyddiant digon soffistigedig yn y maes hwn o risg. Mae ymwybyddiaeth, ymateb a gallu Heddlu Gogledd Cymru a'i bartneriaid i liniaru niwed yn fesurau mwy ystyrlon ac rwy'n sicr y caiff y cyfryw fesurau eu holrhain gan adolygiadau achos manwl, samplau dipio ansawdd a throsolwg proffesiynol rheolaidd.

Gwelir ymyrraeth gynnar gan Dimau Cymdogaethau Mwy Diogel Heddlu Gogledd Cymru fel blaenoriaeth wrth nodi'r troseddau hyn.

Blaenoriaeth 4: Grwpiau Troseddau Trefnedig (OCG)

Fel gyda chaethwasiaeth fodern, mae'r sgôr risg wedi cynyddu ar gyfer troseddau trefnedig, yn bennaf mewn perthynas â chyflenwi cyffuriau dosbarth A. Mae cyflenwi trefnedig o gyffuriau Dosbarth A wedi newid o Risg Canolig i Uchel oherwydd newid sylweddol yn ein dealltwriaeth o allu a bwriad OCG. Bu cynnydd nodedig mewn trais sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn y Gogledd Orllewin ac mae'n debygol bod bygythiadau a gweithgarwch lleol yn adlewyrchu hyn.

Mae gweithgarwch ymgyrchol yn ystod y cyfnod diwethaf wedi canolbwyntio ar wella llywodraethu mewnol, gan ddelio â bygythiadau cynyddol o'r Gogledd Orllewin, ynghyd â gwaith aml-asiantaethol a phartneriaeth sylweddol.

Mae cynnydd mewn trais sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn y Gogledd Orllewin, yn enwedig Glannau Mersi, wedi cynyddu'r bygythiad yng Ngogledd Cymru ac wedi effeithio'n sylweddol ar ein hadnoddau.

Mae dadansoddiad o'r bylchau yn cael ei gynnal ar hyn o bryd gan Heddlu Gogledd Cymru i nodi arferion da a chyfleoedd ar gyfer datblygu ym maes rheoli rhagweithiol ac adweithiol ein grwpiau risg uchel.

Mae proses rhannu data ddeinamig gyda'r Uned Troseddau Trefnedig Rhanbarthol mewn perthynas â bygythiadau sy'n dod i'r amlwg lle mae cudd-wybodaeth yn cael ei rannu yn gyflym.

Mae gwaith ataliol yn mynd rhagddo trwy Ddiogelwch Cymunedol gyda defnyddio Gorchmynion Cau o dan y Ddeddf ASB, Trosedd a Phlismona newydd i aflonyddu ar safleoedd problem a ddefnyddir gan OCG sy'n ecsbloetio tenantiaid diamddiffyn.

Nodwyd bod y defnydd a'r cyflenwad o Sylweddau Seicoweithredol yn fygythiad strategol. Mae ymgysylltiad aml-asiantaeth sylweddol â defnyddwyr yn cael ei gynnal yn Wrecsam a chwblhawyd dadansoddiad cychwynnol.

Mae'r cyfarfodydd llywodraethu OCG bellach yn digwydd bob dau fis gyda phum asiantaeth bartner yn bresennol a chynrychiolwyr o bob maes swyddogaethol Heddlu Gogledd Cymru.

Cytunwyd y bydd Gorchmynion Atal Troseddau Difrifol yn cael eu monitro trwy DCIs trwy brosesau tasgau lleol er mwyn sicrhau gorfodaeth briodol. Bydd y cyfarfod Cydlynu OCG yn darparu rheolaeth strategol o'r broses.

Mae'r Swyddfa Gartref wedi gofyn i bob Awdurdod Lleol archwilio eu prosesau caffael i asesu'r risg o Droseddau Trefnedig a llygredigaeth. Rwy'n deall y bydd Heddlu Gogledd Cymru yn cynnal briffiad i adrannau perthnasol yr ALl i gefnogi eu dealltwriaeth o'r bygythiadau.

Mae cais llwyddiannus gan yr Uned Troseddau Trefniedig Ranbarthol wedi gweld lluoedd Glannau Mersi, Swydd Gaer a Gogledd Cymru yn cydweithio i fynd i'r afael â throseddau trefnedig sy'n teithio ar draws ffiniau'r heddlu.

Llinellau Sirol yw'r term a ddefnyddir gan yr heddlu a gorfodaeth y gyfraith i ddisgrifio'r ymagwedd a gymerir gan gangiau a rhwydweithiau troseddol yn deillio o ardaloedd trefol sy'n teithio i leoliadau megis trefi sirol neu arfordirol i werthu cyffuriau dosbarth A. Yn nodweddiadol, mae gangiau'n defnyddio plant a phobl ifanc diamddiffyn i gyflenwi cyffuriau i gwsmeriaid ac mae hyn yn aml yn cynnwys twyll, bygythiad, trais, caethiwed dyled a / neu feithrin perthnasau amhriodol. Mae model busnes llinellau sirol wedi'i gysylltu â llinell ffôn symudol wedi'i farchnata y mae defnyddwyr yn ffonio am i gyffuriau penodol gael eu cyflenwi.

Datblygwyd Strategaeth i fynd i'r afael â Llinellau Sirol gyda'r bwriad ar leihau niwed i gymunedau Glannau Mersi, Swydd Gaer a Gogledd Cymru.

Rwyf wedi gofyn i'r Heddlu ymgorffori rhagor o wybodaeth am y cynnydd a wnaed ynghylch Grwpiau Troseddau Trefniedig yn yr adroddiad perfformiad nesaf i'r SEB.

Blaenoriaeth 5: Darparu Cymdogaethau Mwy Diogel

Mae pwysigrwydd ymgysylltiad cymunedol â'r cyhoedd yng ngoleuni'r digwyddiadau diweddar wedi bod yn fater o ffocws go iawn. Mae'r Heddlu wedi ymateb gyda mwy o weledigedd ac ymgysylltiad i sicrhau bod y cyhoedd yn teimlo'n fwy diogel yn eu cymdogaethau.

Mae'r ystod o wybodaeth sydd gennym ar gael i ni yn darparu tystiolaeth bod y cyhoedd eisoes yn gweld swyddogion a staff heddlu Gogledd Cymru fel bod yn deall anghenion eu cymunedau ac yn ymateb yn effeithiol. Mae'r cyhoedd hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cynyddol cyfryngau cymdeithasol wrth ymgysylltu trwy arolygon hyder y cyhoedd diweddar ac mae tudalennau corfforaethol Twitter a Facebook yr Heddlu yn weithredol ac yn cael defnydd da gan y cyhoedd.

Dylai defnydd swyddogion a staff yr heddlu o ddyfeisiadau symudol gweithredol newydd gynyddu wrth i ni symud ymlaen trwy'r flwyddyn, ac mae'r Heddlu yn anelu at ddefnyddio mwy o ddyfeisiau symudol ar gyfer gweithgareddau plismona bob dydd.

Er mwyn monitro cynnydd yn erbyn y Flaenoriaeth hon, mae'r Heddlu'n adolygu ac yn rhannu gwybodaeth gyda mi yn rheolaidd mewn perthynas â'r canlynol:

a) Deall y gymuned / delio â phryderon;
b) Dadansoddi gweithgareddau (dyfeisiau symudol);
c) Defnyddio cyfryngau cymdeithasol ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned;
d) Timau Cymdogaethau Diogelach yn gysylltiedig â diamddiffynedd;
e) Nifer y Swyddogion Heddlu Arbennig, Gwirfoddolwyr a Chadetiaid;

Deall y gymuned / delio â phryderon

Dywedir wrthyf mai Heddlu Gogledd Cymru yw un o'r Lluoedd gorau o ran deall ac ymateb i faterion cymunedol fel y gofynnwyd yn Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr bob chwarter.



Ar hyn o bryd mae Heddlu Gogledd Cymru yn eistedd yn y 9fed lle yn genedlaethol ar 74.4%, 2il yn ein Grŵp Mwyaf Tebyg (MSG) ac yn 2il yng Nghymru am y 12 mis hyd at fis Mawrth 2017.



Mae Heddlu Gogledd Cymru yn 9fed yn genedlaethol ar gyfer delio â phryderon ar 63.9%, gan eu rhoi y 1af yn ein MSG a'r 2il yng Nghymru am y 12 mis hyd at fis Mawrth 2017.

Dadansoddi gweithgareddau (dyfeisiau symudol)

Ymgymerwyd ag astudiaeth dadansoddi gweithgaredd swyddogion rheng flaen ym mis Mawrth 2017 a dangosodd fod dyfeisiau symudol yn cael eu defnyddio mewn 11% o'r holl weithgareddau a gofnodwyd, ychydig dros 1700 awr o ddefnydd.

Defnyddio cyfryngau cymdeithasol ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned

Cyfrif Twitter Corfforaethol



Crynodeb o'r gweithgareddau (Misol):

Mae argraffiadau trydar yn caniatáu mesur faint o bobl sy'n gweld y negeseuon ar eu llinell amser eu hunain heb o reidrwydd yn ymweld â thudalen Twitter yr Heddlu. Ni fydd yn cynnwys y bobl a allai eu gweld o ymweld â gwefan yr heddlu, lle mae'r trydar hefyd yn cael eu harddangos. Dim ond sawl tro y byddant wedi eu gweld trwy wefan neu app twitter fydd yn cael ei gyfrif, felly bydd yn danamcangyfrif.

Mae'r ffigurau'n dangos ymgysylltiad iach a chynyddol â chyfryngau cymdeithasol a gefnogwyd gan yr Arolwg Hyder Cyhoeddus diweddar a ddangosodd lefelau uwch o ymgysylltiad ac adborth cadarnhaol ar hygyrchedd.

Mae'r dadansoddiad proffil oedran yn dangos uchafbwynt yn y grŵp oedran 25-34.

Cyfrif Facebook corfforaethol

Adolygiad Mai 2017

- Nifer y bobl sy'n hoffi'r dudalen - 1869 (cyfanswm ar y diwedd Mai - 53,322)
- Cyfanswm y post a wnaed - 218
- Post a oedd yn cynnwys cyfryngau - 126



- Cyfanswm cyrhaeddiad - 3,737,166
- Cyfanswm Cliciau ar Bost - 444,089
- Cyfanswm Ymatebion, Sylwadau a Rhannu - 37,875

Mae'r proffil oedran ar gyfer Facebook yn dangos uchafbwynt yn y grŵp oedran 24-35, fel sy'n wir gyda Twitter.

Bydd dadansoddiad pellach o gyfrifon swyddogion a staff unigol yn cael ei ystyried i ddeall ymhellach gyrhaeddiad y cyfryngau cymdeithasol wrth ymgysylltu â'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru a thu hwnt.

Timau Cymdogaethau Diogelach yn gysylltiedig â diamddiffynedd

Bydd angen cynnwys hyn mewn astudiaethau dadansoddi gweithgarwch yn y dyfodol gan na chafodd ei ddal fel rhan o astudiaeth Mawrth 2017.

O ran Timau Cymdogaethau Mwy Diogel (SNT) yn gyffredinol, deallaf fod HMIC wedi rhoi canmoliaeth ynglŷn ag ethos SNT a'r ffocws ar ddatrys problemau. Mae eglur o ran rolau, gyda gweledded, ymgysylltu a datrys problemau yn digwydd. Mae olion traed Timau Cymdogaethau Diogelach wedi tyfu, yn enwedig mewn perthynas â'r Cyfryngau Cymdeithasol.

Er bod rôl yr SNT wedi parhau i ddatblygu'n arbennig o ran ymgysylltu, gweledded a datrys problemau, cydnabyddir bod angen buddsoddi pellach yn y meysydd hyn.

Nifer y Swyddogion Heddlu Arbennig, Gwirfoddolwyr a Chadetiaid

Ar hyn o bryd mae 217 o Swyddogion Arbennig yn y llu ar 31 Gorffennaf 2017, gyda tharged o 300 erbyn Ebrill 2019. Rwy'n gwybod bod y nifer sy'n ymuno â'r heddlu rheolaidd yn cael effaith ar gyrraedd y ffigur hwn erbyn y dyddiad dyledus.

PLISMONA CRAIDD

Yn ogystal â gwybodaeth sy'n ymwneud â'r blaenoriaethau uchod, rhoddir gwybodaeth i mi hefyd am 'blismona craidd' ym mhob cyfarfod SEB.

Dywedwyd wrthyf yn SEB ar yr 17 Awst bod nifer o feysydd ar draws y mesurau plismona craidd yn dangos perfformiad cyson neu welliant:

Mae lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn dilyn tueddiadau tymhorol; mae Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd yn cynnwys y rhai a laddir neu a anafwyd yn ddifrifol yn lleihau o flwyddyn i flwyddyn; mae lefelau ymateb ar unwaith yn gyson; nid yw boddhad dioddefwyr trosedd casineb yn dangos unrhyw dueddiadau arwyddocaol, ac er bod trosedd casineb a gofnodwyd wedi dangos cynnydd diweddar, mae hyn yn rhannol oherwydd effaith niferoedd bach, nid oes unrhyw dueddiadau yn amlwg ar lefel leol, nac unrhyw effaith o ddigwyddiadau terfysgol diweddar; Mae boddhad dioddefwyr am y 12 mis hyd at fis Mehefin yn dangos gostyngiadau arwyddocaol yn y gwaith dilynol ar ôl Byrgleriaeth, ond mae dadansoddiad o ymatebion misol yn dangos bod y duedd ddiweddar yn bositif, felly rhagwelir y bydd y meysydd hyn yn gwella yn ystod y misoedd nesaf os bydd hyn yn cael ei gynnal.

Mae trosedd sy'n seiliedig ar ddioddefwyr wedi dangos cynnydd o 19.1% yn ystod wythnos 18. Yr elfen gyfaint fwyaf o hyn yw trais heb anaf sydd â chynnydd o 36.1%. Gwnaed gwaith pellach i ddeall y rhesymau dros y cynnydd ac a oes unrhyw effeithiau cofnodi. Y prif effaith yw cynnydd mewn troseddau domestig a gofnodwyd (yr ymdrinnir ag ef uchod), sy'n cyfrif am draean o'r cynnydd mewn troseddau a gofnodwyd.

Diweddariad Perfformiad Cenedlaethol

Rhyddhaodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol y ffigurau trosedd diwedd blwyddyn yng Nghymru a Lloegr ar ddiwedd mis Gorffennaf 2017. Gwelodd Heddlu Gogledd Cymru gynnydd o 6% ym mhob trosedd ac eithrio twyll ac fe'i graddiwyd ar y cyd yn 6ed o'r 43 heddlu. Allan o heddluoedd Cymru Heddlu Gogledd Cymru oedd â'r cynnydd isaf mewn trosedd ac yn ei grŵp mwyaf tebyg, roedd yn gyd-drydydd â Heddlu Norfolk.

O'r categorïau troseddau, cafwyd cynnydd mewn 10 categori, sef trais yn erbyn y person, trais ag anaf, trais heb anaf, troseddau rhywiol, byrgleriaeth ddomestig, lladrad oddi wrth berson, dwyn o siopau, pob trosedd dwyn arall, meddu ar arf peryglus ac amrywiol droseddau.

Roedd lleihad mewn lladrad, byrgleriaeth, byrgleriaeth annomestig, dwyn beiciau, difrod troseddol a llosgi bwriadol, troseddau cyffuriau a throseddau tramgwydd cyhoeddus. Hefyd, nid oedd unrhyw newid i droseddau dwyn a throseddau cerbydau.

Fel y nodwyd uchod, y meysydd sy'n peri pryder yw'r cynnydd mewn trais yn erbyn y person a throseddau rhywiol. Ar y cyfan, cafwyd cynnydd o 37% mewn troseddau rhywiol a chynnydd o 20% mewn trais yn erbyn y person.

Yr heddlu a throsedd yn eich ardal chi

Mae gwefan y swyddfa gartref http://www.police.uk yn rhoi gwybodaeth ystadegol am droseddau a digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n benodol i god post.

Adran Dau: Diweddariadau Cyffredinol

Yn yr adran hon rwy'n darparu crynodeb gryno i'r Panel ynglŷn â'r prif bethau yr wyf wedi'u gwneud ers cyfarfod diwethaf y Panel. Sylwer mai dim ond chwe wythnos o weithgareddau mae'r adroddiad hwn yn cynnwys:

Ymgysylltu a Chyfathrebu

Rhan o fy rôl yw darparu gwybodaeth a galluogi'r gymuned i ymgysylltu â phlismona.

O 1 Gorffennaf i ganol mis Awst, cwrddais â'r canlynol (yn ogystal â swyddogion a staff Heddlu Gogledd Cymru):

- Cynrychiolwyr o'r undebau ffermio;
- Geoff Ryall Harvey, Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru;
- Stuart Davies i drafod Polisi Gwerth Cymdeithasol;
- Louise Foreman ynghylch Cyfarfod Is-Grŵp Cyllid CJIS;
- Leon Marsh, CAIS, i drafod digartrefedd yn Wrecsam;
- Martin Blakeborough ac Anna Baker ynglŷn â Kaleidoscope a ARCH Initiatives;
- John Gallanders AVOW;
- Jonathan Blades, MS Society;
- Cynrychiolwyr o HMP Berwyn;
- Denise Charles, Caniad;
- Bernard Rix, ynglŷn â COPACC Policing Insight;
- Cynrychiolwyr o'r Ffederasiwn ynghylch yr Ardoll Brentisiaeth;
- Ian Barrow, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol;
- Cydlynwyr Cydlyniant Cymunedol;
- Yr Athro Elan Closs Stephens a Rhydian Thomas;
- Cynrychiolwyr o swyddfa Comisiynydd y Gymraeg;
- Tracy Griffiths, Dr Faye Tarrant a Julie Macdonald ynghylch rhagnodi cyflym.

Mynychais y cyfarfodydd canlynol hefyd

- Cyfarfod Plismona Cymru Gyfan;
- Cynhadledd Genedlaethol ar Gyffuriau;
- Cyd-Symposiwm Haf APCC / NPCC;
- Lansio Adroddiad 'Trechu Troseddau Gwledig' NFU;
- Rhwydwaith Gwrth-fasnachu a Chaethwasiaeth Fodern Genedlaethol;
- Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol APCC;
- Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cwmni TGCh yr Heddlu;
- Digwyddiad 12 Cam i Ryddid Gogledd Ddwyrain Cymru;
- Sioe Frenhinol Cymru;

- Cyfarfod PACT;
- Trafodaeth tai cymunedol a gynhaliwyd gan Gymdeithas Tai Cymunedol yn yr Eisteddfod Genedlaethol;

Ers cyfarfod diwethaf y Panel, yn ogystal â chyfarfod â chynrychiolwyr cymunedol, partneriaid ac aelodau'r cyhoedd, mae fy Dirprwy a minnau wedi ymgymryd â nifer o weithgareddau allweddol gyda'r cyfryngau. Maent yn cynnwys:

Ymweliad â Penrhyn House

Ystafell chwistrellu diogel yn arbed bywydau

Troseddwyr yn helpu i dalu er mwyn amddiffyn pobl fyddar rhag troseddau

Diwrnod ar y ffyrdd

Heddlu yn croesawu penderfyniad i dynnu swyddogion o'r brotest gwrth-ffracio

Llawenydd wrth fyrstio'r swigen gêm ddarbi

Fe wnawn ni gymryd rheolaeth o'r heddlu yng Nghymru

Cynllun gweithredu i wrthdroi'r cynnydd annisgwyl mewn dedfrydau carchar byr i ferched

Bydd gennym 200 yn llai o swyddogion oni bai bo'r ffrae arian hyfforddi yn cael ei datrys

Pennaeth yr Heddlu yn dweud wrth Newsnight i beidio â sarhau'r Gymraeg eto

Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd, Ann Griffith

Gofynnodd y Panel gael ei hysbysu am waith y dirprwy gomisiynydd. Mae hi wedi ymrwymo'n llawn ac effeithiol iawn i'w rhaglen waith anodd iawn, fel y manylir isod:

- Mynychu Cyd-Symposiwm Haf APCC / NPCC;
- Mynychu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol APCC;
- Cyfarfu ag Eleri Butler ac Emma Wools;
- Mynychu Diwrnod Datblygiad APCC ar gyfer DPCC;
- Cyfarfod â'r Dirprwy Brif Gwnstabl Bob Evans;
- Mynychu cyfarfod o Grŵp Llywodraethu Braenaru Merched Cymru Gyfan;
- Cyfarfod â Tracey Owens, Gwasanaeth Prawf;
- Mynychu cyfarfod o'r Panel Gwobrau Plismona sy'n Canolbwyntio ar Broblemau;
- Cyfarfod â Dr Roger Scully;
- Cyfarfod ag Andrew Thomas o Hafal a Cliver Wolfendale o CAIS;
- Mynychu cyfarfod o'r Panel Heddlu a Throsedd;
- Mynychu lansiad cerdyn Keep Safe Cymru yn yr Eisteddfod Genedlaethol;
- Cyfarfod â Jenny Williams a Neil Ayling ynglŷn â Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru.

Comisiynu

O ran Cam-drin Domestig a Cham-drin Rhywiol, mae gwaith cydweithredol ar gomisiynu rhanbarthol wedi'i drafod yn rhanbarthol. Rwy'n darparu cyllid o £488,729.00 i gefnogi'r darn pwysig hwn o waith. Caiff y dyraniad hwn ei wario ar gefnogi Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig, Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol, Caethwasiaeth Fodern, Gweithgareddau Ymgyfarwyddo i Ferched a Cham-drin Plant yn Rhywiol ar draws Gogledd Cymru.

Mae'r Fframwaith Comisiynu wedi'i ddiwygio i gynnwys gofynion Gwerth Cymdeithasol a bydd y polisi yn cael ei lansio ym mis Hydref 2017.

Mae gwaith yn cael ei wneud i adolygu'r Rhaglen Ymyrraeth Cyffuriau ar hyn o bryd mewn partneriaeth â HMPPS, yn unol ag agoriad HMP Berwyn yn Wrecsam.

Comisiynwyd yr holl Wasanaethau i Ddioddefwyr ar gyfer 2017-18.

Bydd y Cynllun Cyllideb Cyfranogol i'w lansio yn Hydref 2017 - dyddiadau i'w cadarnhau.

Dioddefwyr

Yn ddiweddar, cytunais i ariannu Swyddog Cefnogi Caethwasiaeth Fodern yng Nghanolfan Cymorth Dioddefwyr Gogledd Cymru yn Llanelwy, er mwyn cefnogi cyflwyno fy Mlaenoriaeth Plismona Caethwasiaeth Fodern.

Mae llythyr a dderbyniwyd yn ddiweddar gan Kevin Hyland, y Comisiynydd Gwrth-Gaethwasiaeth Annibynnol, yn nodi bod ariannu'r rôl hon yn gam cadarnhaol iawn ac y bydd y rôl "yn fuddiol iawn o ran ennill ymddiriedaeth a hyder dioddefwyr caethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl, a bydd yn mynd ymhell i ddatgelu a mynd i'r afael â'r drosedd hon, diogelu dioddefwyr ac yn bwysig iawn, dod â throseddwyr o flaen eu gwell a chymryd eu henillion twyllodrus oddi wrthynt". Mae copi o'r llythyr hwn gan Mr Hyland, dyddiedig 24 Ebrill 2017 ynghlwm er gwybodaeth i Aelodau'r Panel:

2017.04.28 Kevin Hyland r.pdf

Diweddariad HMIC

Arolygwyd yr heddlu ar ei Gyfanrwydd Data Troseddau yn ôl ym mis Mai 2017 a disgwylir yr adroddiad terfynol yn yr hydref. Trafodwyd canfyddiadau'r adroddiad drafft yn y Grŵp Defnyddwyr Cofnodi Trosedd ym mis Gorffennaf ac mae'r Heddlu yn dal i aros am y raddfa gyffredinol. Unwaith y bydd yr adroddiad terfynol wedi'i gyhoeddi, byddaf yn darparu diweddariad pellach mewn perthynas â'r gwaith a wneir gan fy swyddfa i graffu ar gyfanrwydd data troseddau.

Ymgynghori

Ymgynghoriad Camau Unioni Cymunedol

Un o nodweddion newydd y Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona, a ddaeth i rym ar 20 Hydref 2014, yw cyflwyno Camau Unioni Cymunedol. Mae'r ddeddf yn rhoi dyletswydd ar Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd i ymgynghori â'r gymuned leol ynghylch pa ddulliau adferol neu adsefydlu mae'n teimlo'n addas i'w cynnwys yn y Camau Unioni Cymunedol.

Community Remedy Consultation.docx

Ymweld â Dalfeydd

Rwy'n parhau i recriwtio ymwelwyr annibynnol â dalfeydd i ymweld â lletyau gwarchodaeth ledled Gogledd Cymru. Ers fy niweddariad diwethaf i chi rwyf wedi recriwtio 5 gwirfoddolwr pellach i gynnal yr ymweliadau hyn. Gan fod cyfnod swydd ymwelwyr dalfeydd wedi'i gyfyngu i 3 tymor o 3 blynedd, mae recriwtio ymwelwyr dalfeydd yn ymarfer parhaus.

Hyfforddir ymwelwyr â'r ddalfa i sicrhau bod hawliau'r sawl sy'n cael eu cadw yn cael eu parchu. Mae'r adroddiad blynyddol ar ymweld â dalfeydd ar gael ar y wefan.

Gohebiaeth

Ffigurau gohebiaeth o 1 Gorffennaf 2017 hyd 17 Awst 2017:

Categori Gohebiaeth	**Nifer**
Adborth penodol ynglŷn â'r gwasanaeth plismona	*56**
Adborth cyffredinol ynglŷn â'r gwasanaeth plismona	32
Cwynion a atgfeiriwyd at PSD	2
Materion staff	2
Gohebiaeth gyffredinol	193

* Noder y cafwyd 32 o eitemau o ohebiaeth oddi wrth 2 unigolyn.